# AMGUEDDFA CAERDYDD

# *STORI WELEDOL*



Museum of Cardiff
Amgueddfa Caerdydd

*Ar agor dydd Llun - dydd Sadwrn 10am – 4pm*

CARDIFF
CAERDYDD

# MYNEDFA

## Gallwch ddefnyddio'r ramp i gael mynediad i'r amgueddfa.






# DERBYN

## RYDYM YN AMGUEDDFA AM DDIM.

**Bydd rhywun mewn gwisg las yn eich cyfarch wrth y ddesg.**





# BAGIAU SYNHWYRAIDD

Yma gallwch gasglu bagiau synhwyraidd, clustffonau a chynlluniau i'ch helpu i gynllunio'ch ymweliad.

# CANLLAWIAU SAIN

## Mae gennym ganllawiau sain y gallwch eu defnyddio hefyd.





# GWIRFODDOLWYR

**Mae gwirfoddolwyr ar gael yn yr amgueddfa. Maen nhw'n gallu ateb cwestiynau.**

# EIN HORIELAU

## Mae Caerdydd Mewn Cyd-destun ar y llawr gwaelod. Mae'n cynnwys goleuadau isel, sŵn cefndir a gemau gydag arogleuon.





Os oes angen newid lefel y sŵn neu'r goleuni, siaradwch ag aelod o staff.

Mae ein horiel Lab y Ddinas yn y tanlawr.

Mae gennym lifft i fynd rhwng y llawr gwaelod a'r tanlawr os oes ei angen arnoch.



# Neu gallwch ddefnyddio'r grisiau.






**Mae goleuadau llachar yn yr oriel Lab y Ddinas ac mae ein harddangosfeydd yn aml yn newid felly mae'r cynllun weithiau'n edrych yn wahanol.**



## Mae yna ardal chwarae i blant sy’n gallu bod yn swnllyd weithiau.



## Mae gorsafoedd gweithredu sy'n gallu bod yn brysur hefyd, yn enwedig pan fydd gennym grwpiau ysgol yn ymweld.



**Mae gofod arddangosfa fach dros dro yng nghefn y tanlawr. Mae'r gwrthrychau a'r straeon yn newid yn aml yn fan hyn.**



# DIGWYDDIADAU

**Bob dydd Mercher drwy gydol gwyliau'r ysgol mae gennym ddiwrnod celf a chrefft sy'n gallu bod yn brysur.**



**Ar ail ddydd Gwener y mis rydym yn cynnal diwrnod plant bach. Rydym yn chwarae offerynnau ac yn gwneud llawer o sŵn yn yr ardal chwarae yn y tanlawr.**



# TOILEDAU

**Mae toiled niwtral o ran y rhywiau ar y llawr gwaelod.**




**Mae toiledau i ddynion a merched, toiled hygyrch a chyfleuster newid babanod yn y tanlawr.**



# MANNAU ERAILL

Mae man tawel ar gael i chi os oes ei angen arnoch, siaradwch ag aelod o staff.

Gall y man tawel newid yn dibynnu ar ba ddigwyddiadau sydd gennym ni.

